**Beirniadaeth Cystadleuaeth 376**

**Rhyddiaith Bl.12 a dan 19 oed**

**Beirniad: Nia Parry**

Dyddiadur sydd yn y darn 'Gobaith' am daith Y Bwyles i Lundain gyda'i chwaer a'i mam i weld gig Marina. Mae hi'n llwyddo i gyfleu'r cyffro mae hi'n deimlo cyn mynd. Mae ei disgrifad o'r profiad o fod yn y cyngerdd yn dod â'r cyfan yn fyw i ni. Dw i'n hoff o'r disgrifiadau manwl o ddillad a chaneuon yr artist a dw i'n gwenu wrth glywed bod mam ddim yn hoff o'r caneuon, ond yn hapus o weld ei merched yn mwynhau! Mae cyffyrddiadau cynnes, personol a hyfryd yn y gwaith. Defnyddir iaith lafar naturiol sy'n addas ar gyfer dyddiadur. Dw i hefyd wrth fy modd gyda cherddoriaeth y Gymraes, Marina a byddwn wrth fy modd yn mynd i'w gweld yn perfformio'n fyw!

Cyfweliad gyda'r seren Taekwondo o Sir Ddinbych, Jade Jones sydd gan Braf. Rydan ni'n dysgu llawer iawn am fywyd a phrofiadau Jade yn y darn. Dw i'n hoff o'r ffordd mae Braf yn amrywio'r brawddegu ac yn defnyddio gwahanol amseroedd y ferf yn effeithiol. Mae'r darn yn cadw diddordeb y darllenwr drwy roi ffeithiau am lwyddiannau Jade ond hefyd am ei theimladau a'r emosiwn o ennill yn ogystal â'i gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae geirfa gyfoethog yn cael ei ddefnyddio y darn.

Mwynheuais ddarllen y darn 'Gobaith am Well Fyd' yn trafod manteision Ysgolion Coedwig a'r ffaith bod cyn lleied ohonyn nhw yng Nghymru. Mae RJ yn llwyddo i amlinellu'r dadlau o blaid addysg goedwig drwy nodi ffeithiau, defnyddio iaith berswadiol a rhestru rhesymau dilys a diddorol. Maen nhw'n llwyddo i ddefnyddio iaith ffurfiol sy'n addas ar gyfer mynegi eu barn ar ffurf llythyr at aelod seneddol. Maen nhw wedi ffurfio llythyr cwrtais a chadarn gan ddefnyddio geirfa eang ac amrywiol a chystrawennau cywir. Darn uchelgeisiol a dewr.

Llongyfarchiadau mawr a diolch i'r tri am eu gwaith a'u hymroddiad i ddysgu'r Gymraeg. Gobeithio y gwnewch chi barhau i fwynhau ysgrifennu a siarad yr iaith. Mae pobl ifanc fel chi yn bwysig iawn i ffyniant y Gymraeg.

Yn drydydd rwy'n gosod 'Gobaith' gan y Bwyles, yn ail 'Gobeithion Jade Jones' gan Braf a'r enillydd ydy RJ gyda 'Gobaith am Well Byd'.